**Cyngor Cymuned Y Bontnewydd**
**COFNODION CYFARFOD MISOL MAWRTH 2020**
5 Mawrth 2020 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

## PRESENNOL:

**Cynghorwyr:** Peter Garlick, Huw Orwig, Gruff Williams, Erddyn Davies, Emyr Williams, Gwyneth Thomas, Dafydd Iwan, Math Williams

**Cadeirio:** Geraint Strello

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 1. YMDDIHEURIADAU

Mirain Llwyd Owen, Wynn Roberts

## 2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

## 3. CADARNHAU COFNODION MIS CHWEFROR 2020

Cadarnhawyd cofnodion mis Chwefror 2020 Cynnig: Dafydd Iwan
Eilio: Peter Garlick

## 4. MATERION SEFYDLOG

### 4.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

Cyfarfu’r Cynghorydd Peter Garlick unwaith eto efo swyddogion Cyngor Gwynedd er mwyn trafod sut i wella diogelwch ffordd yn ardal Llanfaglan.

Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu danfon holiadur i drigolion lleol er mwyn canfod barn y trigolion. Mae’n bwysig fod yna ymateb teilwng, fel ei bod hi’n haws wedyn i Gyngor Gwynedd ddenu cyfraniad at unrhyw waith gan Lywodraeth Cymru.

Dydy hi ddim yn bosibl gosod cyfyngiadau yn Llanfaglan fyddai’n arafu’r traffig i un lôn, oherwydd fod y ffordd yn rhy gul. Yn ogystal, mae trigolion Llanfaglan yn erbyn gosod twmpathau yn y pentref oherwydd

pryder am sŵn.  Nid yw hi'n bosibl gosod twmpath un bob ochr i'r pentref, mae'n rhaid cael cyfres ohonynt.  Felly mae'n bosibl mai'r unig opsiwn yn Llanfaglan yw gosod stribedi sŵn.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Gwynedd i lunio cynllun a fydd yn rhaid ei wireddu yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

Cafwyd llawer o gwynion fod Erw Deg, Bontnewydd yn cael ei ddefnyddio fel maes parcio, oherwydd Gwaith adeiladu stâd Cae Capel gan gwmni Watkin Jones.  Mae Watkin Jones wedi gosod 2 arwydd yno yn gofyn i geir beidio parcio ar y droedffordd, ond dydy hyn ddim yn rhwystro ceir rhag parcio ar y ffordd.

Mae'n debyg na fydd hyn yn gymaint o broblem wedi i'r ffordd i mewn i'r datblygiad newydd gael ei orffen.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Steve Dawson, Rheolwr Prosiect Watkin Jones parthed y mater.

Mae'r Gwaith o osod llochesi bws Newydd ym Montnewydd wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl.  Gobeithir gorffen y Gwaith yn fuan. Mi fydd yna gyflenwad trydan i'r llochesi.

**4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd**

Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Math Williams.

**Sefyllfa ariannol:**
Arian yn y banc 4/03/20: £1060
Taliadau yn ddyledus am waith wedi ei gwblhau: £60

Arian mewn llaw: £140

Arian yn ddyledus: 3 mis gan karate; mis gan Clwb ar ôl Ysgol ac hefyd gan Yoga.

**Gwaith cynnal a chadw a gwelliannau ym mis Chwefror:**

- Adnewyddwyd rhai llechi to yn dilyn storm Dennis.

**Ar y gweill**

- Mat sychu traed newydd i'r cyntedd bach – dal i aros;
- Golau tu allan wrth y cyntedd bach – aros hyd y bydd arian;

- Drws mynediad (cyntedd bach) - mae ffram y drws yn rhydd o'r wal ar ochr y colfachau - aros hyd y bydd arian;
- Drysau tân dwbl y neuadd - nid yw'r drysau yn cau yn iawn oherwydd bod colfachau'r drws ar y dde yn rhwygo o'r ffrâm, a hwnnw o ddur. Nid oes gennym ateb.
- Ystafell ymgynnull newydd (yr hen ystafell snwcer) a drws tân y neuadd – y cynlluniau terfynol yn aros sêl bendith Safonau Adeiladu. Y pensaer wedi ymweld i gasglu gwybodaeth ar gyfer y manylion gwaith i'r adeiladwyr.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 5.1 Prosiect Cyngor Cymuned ar gyfer 2020

Cyflwynodd y Cynghorydd Geraint Strello fersiwn diwygiedig o'r ffurflen cais am grant.

Awgrymwyd mân newidiadau, a bydd fersiwn terfynol yn cael ei baratoi'n fuan.

Penderfynwyd y byddai y Cynghorydd Erddyn Davies, Dafydd Iwan a Math Williams yn aelodau o'r panel gydag Elinor Gwyn yn gynrychiolydd allanol.

Cytunwyd y dylai'r dyddiad cau fod ddiwedd Mai 2020, fel bo'r prosiectau wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Y cam nesaf fydd gosod yr wybodaeth am y cynllun ar y wefan, hysbysebu yn y papurau bro lleol a rhoi datganiad i'r wasg.

### 5.2 Gwefan

Diolchwyd i'r Cynghorydd Gruff Williams am baratoi fersiwn terfynol y wefan. Mae angen ychwanegu lluniau a gwybodaeth ychwanegol am y cyngor cymuned, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfreithiol.

## MATERION ARIANNOL

### 6.1 Cyflog a Chostau Clerc Chwefror 2020

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis

**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis
**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

**6.2 Taliad Blynyddol i Glwb Pêl-droed Bontnewydd, cynnal a chadw** - £825

**6.3 Aelodaeth 2020/21 Un Llais Cymru** - £159

## 7. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

## 8. GOHEBIAETH

Dim

## 9. MATERION ERAILL

### 9.1 Polisi Yswiriant

Pan fydd y polisi yswiriant yn cael ei adnewyddu ym mis Medi 2020, mae angen diweddaru gwerth yr eiddo sydd wedi ei fanylu arno.

### 9.2 Eisteddfod 2021

Mae'r Eisteddfod wedi penderfynu creu pwyllgorau lleol yn Arfon, er mwyn codi arian i Eisteddfod 2021 ym Moduan.

Mae'r pwyllgorau wedi eu sefydlu ar sail wardiau Arfon, a targedau wedi ei gosod i bob ward. Targed ward Bontnewydd yw £5,000.

Cytunwyd y byddai'r cyngor cymuned yn hwyluso sefydlu pwyllgor ar gyfer ward Bontnewydd.

Penderfynwyd gofyn i'r Eisteddfod am fantolen cyn ystyried gwneud unrhyw gyfraniad ariannol, fel sy'n arferol am unrhyw gais am arian gan fudiadau.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 2 Ebrill 2020 am 7 yr hwyr yn Y Ganolfan, Bontnewydd**